Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cydbwyllgor GwE** |
| **DYDDIAD** | 27 Tachwedd 2019 |
| **TEITL** | **Cyllideb GwE 2019/20 – Adolygiad 2il Chwarter** |
| **PWRPAS** | • Diweddaru aelodau'r Cydbwyllgor ar adolygiad ariannol diweddaraf cyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2019/20.<br>• Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr amrywiadau ariannol sylweddol, gydag Atodiad 1 yn cynnwys y wybodaeth ariannol gyflawn. |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr adroddiad. |
| **AWDUR** | Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd. |

## 1. CASGLIAD

1.1 Mae'r adolygiad chwarter 2 yn amcangyfrif gorwariant net o £36,503 yn erbyn y gyllideb (sefyllfa tebygol derbyniol, lled-niwtral yng nghyd-destun cyfanswm gwariant gros dros £13m), yn bennaf oherwydd y targed arbedion sydd wedi'i ddarganfod gan y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn.

1.2 Dim newid o sylwedd i'r hyn adroddwyd yn chwarter 1, sef amcangyfrif gorwariant o £39,229.

1.3 Mae rhan ddilynol o'r adroddiad yn egluro'r rhesymau tu ôl i'r prif amrywiadau.

## 2. AMRYWIADAU ARIANNOL

2.1 **Gweithwyr:**

**Chwarter 2: gorwariant £45,442** *Chwarter 1: tanwariant (£161,351)*.

Gorwariant o £45,442 yn dilyn penderfyniad y Cydbwyllgor (gweler adroddiad *'Targed Arbedion Effeithlonrwydd' i'r Cydbwyllgor 11/09/19)*, i addasu'r gyllideb i dynnu rôl un Cyfarwyddwyr Cynorthwyol GwE yn ogystal â thynnu 1.4 cyfwerth llawn amser Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant.

Gweithredwyd y lleihad i'r Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant o'r 1af o Fedi 2019, ac felly bydd gorwariant un-tro yn 2019-20.

2.2 **Cludiant:**

**Chwarter 2: tanwariant (£7,697)** *Chwarter 1: tanwariant (£5,905)*.

Dim newid o sylwedd i'r hyn adroddwyd yn Chwarter 1. Mae tuedd costau teithio hanesyddol yn awgrymu bod y gwir gost flynyddol yn debygol o fod ychydig yn is na'r hyn sydd wedi ei sefydlu yn y gyllideb.

2.3 **Arbedion i'w darganfod**

**Chwarter 2 : Niwtral** *Chwarter 1 : Gorwariant £206,485*.

Yn chwarter 1 adroddwyd ar orwariant, gan nad oedd y Cydbwyllgor wedi penderfynu ar strategaeth barhaol i wireddu'r arbedion. Bellach mae'r strategaeth wedi ei gymeradwyo (gweler adroddiad *'Targed Arbedion Effeithlonrwydd' i'r Cydbwyllgor 11/09/19).*

2.4 **Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol (GGYCR)**

**Chwarter 2 : Niwtral** *Chwarter 1 : Niwtral*.

Mae'r GGYCR yn cynnwys pennawd penodol ar gyfer secondiad y Cyfarwyddwr Cynorthwyol am gyfnod o flwyddyn. Gan fod y secondiad wedi dod i ben ar y 31 Awst 2019, a thelerau Llywodraeth Cymru yn nodi fod yr arian yn benodol i'r pwrpas yma, disgwylir bydd yr arian sy'n weddill yn cael ei adhawlio.

Dadansoddi'r grant gyflawn isod:

| | |
|---|---|
| Datganoledig* | £26,064,004 |
| Heb ei ddatganoli | £ 7,977,648 |
| Cyfanswm | **£34,041,652** |
| Grant | £31,555,372 |
| Arian Cyfatebol | £ 2,486,280 |
| Cyfanswm | **£34,041,652** |

** Nid yw cyfrifon y GwE yn cynnwys grantiau wedi eu dosbarthu'n uniongyrchol i'r ysgolion.*

## 3. CRONFA TANWARIANT

3.1 Cyfanswm y gronfa ar gychwyn y flwyddyn gyllidol 2019/20 oedd £278,201.

3.2 Amcangyfrifir bydd cyfanswm y gronfa ('balansau cyffredinol' GwE) ar ddiwedd 2019/20 yn £241,699, wedi ystyried y gorwariant net a ragwelir uchod.

**ATODIADAU**
Atodiad 1: Cyllideb GwE 2019/20 – Adolygiad 2il Chwarter.

## BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

### Y Swyddog Monitro:

Dim i'w ychwanegu o safwbynt priodoldeb.

### Y Swyddog Cyllid Statudol:

Cyd-awdur yr adroddiad.